Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Y Rofft

8 Lôn Wynnstay
Merffordd
Wrecsam
LL12 8LA

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Y Rofft

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Y Rofft |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 217 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 171 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 20 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 6.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 12.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.9% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/05/2001 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/10/2017 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 05/05/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Y Rofft yn darparu amgylchedd croesawgar a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus ac yn ddiogel. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn creu awyrgylch tawel a pharchus, sy’n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn helpu’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymgysylltu’n dda â’u dysgu. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn cynllunio gwersi diddorol sy’n darparu lefel ysgogol o her, gan annog disgyblion i weithio’n annibynnol, dangos gwydnwch a chydweithio’n effeithiol â disgyblion eraill.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd da ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm. Maent yn datblygu medrau cyfathrebu cryf ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn trafodaethau. Mae darllen yn datblygu’n dda, gyda’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn sicrhau medrau ffoneg, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn rhugl ac yn trafod testunau’n ystyriol. Mae medrau ysgrifennu hefyd yn datblygu’n gadarn, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cynhyrchu gwaith estynedig a chywir ar draws ystod o bynciau.

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a difyr sy’n cymell disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso’u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol ar draws ystod o weithgareddau ystyrlon. Maent yn datblygu dealltwriaeth fathemategol gadarn ac yn defnyddio offer digidol yn effeithiol i ymchwilio, cyflwyno a chyfleu eu syniadau. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarnhaol o’r Gymraeg a’i diwylliant, yn ogystal ag amrywiaeth fyd-eang ehangach.

Mae staff yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae disgyblion yn deall sut i aros yn ddiogel, gan gynnwys ar-lein, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ffyrdd iach o fyw a pherthnasoedd. Mae profiadau dysgu yn yr awyr agored a chreadigol, sydd wedi’u cynllunio’n dda, yn cyfoethogi datblygiad disgyblion ymhellach. Mae’r ysgol hefyd yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai yn y ddarpariaeth adnoddau, gan eu galluogi i wneud cynnydd cadarn.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir, yn canolbwyntio’n dda ar wella addysgu a dysgu, ac yn gweithio’n gynhyrchiol gyda phartneriaid allanol. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod angen gwella cyfathrebu â rhieni a llywodraethwyr fel bod gwybodaeth yn gyson glir ac amserol. Er bod llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad a chymorth, nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigon cadarn ynghylch agweddau pwysig ar waith yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau rôl y corff llywodraethol i'w alluogi i herio a chefnogi arweinwyr yn fwy effeithiol

A2 Gwella cyfathrebu â rhieni i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd disgyblion a gwaith yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad parhaus Ysgol Gynradd Y Rofft. Ceir ymdeimlad cryf o berthyn ymhlith staff a disgyblion, ac mae'r ethos hwn yn sail i waith yr ysgol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd effeithiol â disgyblion ac yn gwybod yn dda beth yw eu hanghenion unigol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus, yn mynychu'n rheolaidd a bod ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Yn ystod gwersi, mae athrawon yn sicrhau bod lefel briodol o her a dysgu yn symud ymlaen ar gyflymdra sy'n ennyn diddordeb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu hannibyniaeth a'u gwydnwch yn dda ac yn cydweithio'n gadarnhaol â'u cyfoedion. Mae staff yn gwerthfawrogi cyfraniadau gan ddisgyblion yn ystod gwersi a thrwy waith effeithiol y grwpiau arweinyddiaeth disgyblion amrywiol. O ganlyniad i'r dulliau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da ar draws llawer o agweddau ar gwricwlwm bywiog a diddorol yr ysgol.

### Ciplun: Cyfleoedd dilys i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol

Mae arweinwyr a staff wedi cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys sy'n darparu ystod ddifyr o brofiadau dysgu sy'n cymell disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd hynod ddilys sy'n ymateb i lais y disgybl ac yn galluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn

datblygu ystod eang o fedrau trawsgwricwlaidd soffistigedig wrth gynllunio taith ‘gwyliau gartref’ ledled Cymru, ac yn cynhyrchu ffilm ragflas hynod effeithiol yn gysylltiedig â diwylliant a hanes lleol.

Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion. Maent yn holi disgyblion yn sensitif, gan ddefnyddio geirfa briodol a pherthnasol i sicrhau eu bod yn deall eu dysgu. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r dulliau hyn yn cynorthwyo’r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymryd rhan yn awyddus mewn trafodaethau dosbarth bywiog ac yn datblygu i fod yn gyfathrebwyr hyderus a huawdl.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda, hefyd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd pwrpasol â’u medrau sillafu ac atalnodi, ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig diddorol a chywir. Mae disgyblion hŷn yn parhau i adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn effeithiol, ac erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n gywir ac yn helaeth gan ddefnyddio geirfa gyffrous a mentrus ar draws ystod o genres.

Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i’r rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau ystyrlon, sy’n datblygu eu mwynhad wrth siarad yr iaith. Mae staff yn defnyddio sbardunau ac adnoddau yn effeithiol ac yn modelu’r iaith yn glir. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ac yn ymateb i gwestiynau addas yn Gymraeg â hyder cynyddol. Mae staff hefyd yn cynllunio cyfleoedd arloesol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth bwysig o ddiwylliant Cymru, eu cynefin a’r byd ehangach.

Mae staff yn creu amgylchedd dysgu ysgogol, sy’n cynnwys adnoddau da, sy’n helpu disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o’u dealltwriaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol. Mae llyfrau diddorol ac adnoddau dychmygus sy’n canolbwyntio ar amrywiaeth a chrefyddau’r byd yn cynorthwyo’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth o agweddau pwysig ar fywyd, yn cynnwys anabledd a’r heriau amrywiol y gallai pobl eraill ddod ar eu traws yn y byd modern.

Mae disgyblion yn datblygu medrau mathemategol cadarn wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol. Mae staff yn darparu ystod o adnoddau ymarferol ar gyfer disgyblion iau sy’n eu cynorthwyo i ddatblygu eu medrau rhif cynnar yn gadarn. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu strategaethau effeithiol i ddefnyddio data yn gywir a’i gyflwyno mewn ystod o ffurfiau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso ystod o fedrau rhif, trin data a mesur ar draws amrywiaeth o weithgareddau dilys.

O ganlyniad i brofiadau dysgu diddorol sydd wedi’u cynllunio’n dda, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cryf ac yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso’u medrau digidol i gyfathrebu, ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth ar draws y cwricwlwm,

sy’n eu paratoi’n dda ar gyfer y byd digidol. Mae gan bron bob un o’r disgyblion ddealltwriaeth dda o ffordd iach o fyw a phwysigrwydd datblygu perthnasoedd iach. Mae staff yn annog disgyblion i rannu eu hemosiynau a’u teimladau, a gwneud dewisiadau a fydd yn eu cadw’n ddiogel.

Mae staff yn defnyddio cyfleoedd dysgu wedi yn yr awyr agored, sydd wedi eu cynllunio’n dda, i ddatblygu medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn addas. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau motor manwl a bras yn effeithiol wrth ddefnyddio ystod o adnoddau ysgogol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol wrth adolygu gwaith artistiaid lleol, yn cymryd rhan mewn gweithdai cerddoriaeth a dawns ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i gyflwyno’u dysgu.

Mae staff yn monitro anghenion disgyblion yn agos ac yn nodi ymyriadau addas a chymorth ychwanegol yn effeithiol. Lle mae angen, mae athrawon yn addasu cynllunio yn briodol i dargedau unigol disgyblion ac yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol. Ar draws y dosbarthiadau darpariaeth adnoddau, mae staff yn cydweithio i gyflwyno ystod eang o brofiadau dysgu targedig sy’n diwallu ystod eang o anghenion cymhleth yn dda.

Mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau cynaledig mewn addysgu a dysgu yn llwyddiannus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu. Maent yn defnyddio ystod briodol o weithgareddau hunanwerthuso a gwella, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau fel datblygu dull cydlynus o addysgu darllen. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn â’u medrau darllen. Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth dda o ystod o lythrennau a seiniau cyfatebol, ac maent yn defnyddio’r medrau hyn yn hyderus wrth ddarllen geiriau newydd a mwy heriol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn atgyfnerthu’r medrau hyn yn dda. Maent yn darllen yn rhugl, yn rhesymu ac yn dod i gasgliad am ystyr wrth ddarllen testunau mwy cymhleth, ac yn siarad ag aeddfedrwydd am yr hyn y maent wedi’i ddarllen.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac ymroddgar, ac yn ymwybodol o gynnydd yr ysgol tuag at fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol lleol fel gwella presenoldeb. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn darparu gwybodaeth bwysig i lywodraethwyr am waith yr ysgol mewn modd amserol, ac nid yw llywodraethwyr yn ymgymryd â rôl ddigon gweithgar i chwilio am gyfleoedd i herio gwaith yr ysgol. O ganlyniad, nid ydynt yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol nac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn gadarn.

Mae staff addysgu yn ymgymryd ag ystod addas o brofiadau dysgu proffesiynol sy’n cysylltu’n briodol â blaenoriaethau gwella. Mae staff cymorth hefyd yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol gwerthfawr sy’n cryfhau eu dealltwriaeth o fentrau ysgol gyfan fel addysgu ffoneg yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen cryfhau’r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth a darparu mwy o gyfleoedd i staff ADY arbenigol rannu eu harbenigedd yn ehangach ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio partneriaethau allanol yn effeithiol. Mae athrawon ysgol goedwig ac ymarferwyr creadigol yn gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion ar draws yr ystod oedran i gyfoethogi profiadau'r cwricwlwm. Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr ag ysgolion clwstwr i feithrin dealltwriaeth ar y cyd o strategaethau adborth ystafell ddosbarth. Mae'r gwaith hwn wedi datblygu defnydd athrawon o gyfleoedd adborth effeithiol i ddisgyblion fyfyrio arnynt a gwella'u dysgu, yn cynnwys dulliau pwrpasol ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion.

Er bod arweinwyr yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â llawer o deuluoedd, mae lleiafrif o rieni o'r farn nad yw cyfathrebu yn ddigon clir na chyson. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen cryfhau prosesau sy'n hysbysu pob un o'r rhanddeiliaid yn dda am waith yr ysgol, yn cynnwys y profiadau dysgu y maent yn eu cynnig, a'r cynnydd a wna disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026